

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
1 Mawrth 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Peter Garlick, Dafydd Iwan, Emyr Williams, Geraint Strello, Math Williams, Mirain Llwyd Owen

**Cadeirio:** Gwyneth Thomas

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

**1. YMDDIHEURIADAU**

Erddyn Davies, Wynn Roberts

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Chwefror 2018. Cynnig: Dafydd Iwan  
Eilio: Mirain Llwyd Owen

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Y Ganolfan**

Cafwyd asesiad o'r cyfarpar diogelwch tân gan Snowdonia Fire Protection. Maent yn argymhell gosod system newydd, ar gost o £1948.05 a TAW.

Cytunwyd fod angen gosod system newydd, ond mater i Bwyllgor Y Ganolfan fydd gwneud y trefniadau, ond mae'n debyg y bydd angen cyfraniad gan y Cyngor Cymuned.

O ran gwariant ar eitemau eraill megis addasu'r tai bach, y gegin, gwresogydd ac yn y blaen, penderfynwyd fod angen i Bwyllgor Y Ganolfan brisio'r eitemau a'u rhoi ar bapur cyn bod y Cyngor Cymuned yn gwneud taliad. Cytunwyd mewn egwyddor i wneud taliad o hyd at £4,000 yn y gorffennol. Mae'r Cylch Meithrin am gael toiled anabl. Gofynnwyd i Bwyllgor Y Ganolfan ofyn i'r Cylch Meithrin a fyddent yn fodlon talu am hwn eu hunain, gan fod y gost yn weddol sylweddol.

Mae adran eiddo Cyngor Gwynedd wedi dweud eu bod yn fodlon trosglwyddo prydles Y Ganolfan i'r Pwyllgor cyn belled ag y bo'r Cyngor Cymuned yn parhau yn Ymddiriedolwr Gwarchodol. Bydd angen i'r Clerc ystyried pa ddiwygiadau sydd angen eu gwneud i'r brydles er mwyn sicrhau hyn.

## **4.2 Problemau Traffig Llanfaglan**

Gobeithir trefnu bod cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru yn dod i gyfarfod mis Ebrill.

## **4.3 Caniatau parcio di-amod dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost, Bontnewydd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi'r Gorchymyn perthnasol i newid yr amodau parcio dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost ym Montnewydd. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym yn fuan.

## **4.4 Fainc Bontnewydd**

Mae'r fainc wedi ei hail-wampio ac wedi ei gosod yn ei lle, ynghyd â dau gasgen i ddal blodau.

Llwyddodd y Cynghorydd Peter Garlick i gasglu rhoddion lleol i dalu am y fainc, ac felly fydd dim cost i'r Cyngor Cymuned. Diolchwyd i Peter Garlick am ei waith.

## **4.5 Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn - Ymgynghoriad**

Cytunwyd y medrai pawb ddewis i ateb yr holiadur yn unigol.

## **4.6 Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol**

Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn dod i rym ar 25 Mai. Gofynnwyd i'r Clerc holi pe byddai'n bosibl cydweithio efo cynghorau cymuned cyfagos er mwyn arbed costau cydymffurfio.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru er mwyn gweld pa gymorth y medrant ei roi i leihau baich gwaith ychwanegol a di-angen ar gynghorau bychan nad sydd yn prosesu fawr o ddata personol.

## **4.7 Sgubo Ffordd Castellmai a'r Lôn i Blas Llanfaglan**

Mae'r ffordd yng Nghastellmai wedi cael ei sgubo.

Mae'r Lôn i Gastellmai i Blas Llanfaglan yn parhau i fod angen trwsio'r tyllau.

## **5. MATERION ARIANNOL**

### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Chwefror 2018**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

**5.2 Costau postio** £1.68

**5.3 Balans yn y Banc 1 Mawrth 2018-** £13,147.01

**5.4 Penodi Archwiliwr Mewnol 2017/18**

Cytunwyd i benodi Cyngor Gwynedd fel Archwiliwr Mewnol 2017/18.

**5.5 Ymuno ag Un Llais Cymru 2018/19** £144

**5.6 PWLB 12 Mawrth 2018** £406.31

**6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

**Cais Cynllunio Cartref Plas y Bryn C17/172/19/LL**

Newid defnydd i greu uned gwyliau hunan gynhaliol, codi 2 adeilad presennol

Penderfynwyd mynegi pryder am y cynnydd mewn trafndiaeth, y problemau parcio a mynediad drwy Lôn Groes a diogelwch ffordd yn gyffredinol. Gofynnwyd hefyd sut y byddai'r datblygiad yn medru dibynnu ar y cyflenwad dwr a thrydan presennol.

**7. GOHEBIAETH**

- Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru 15 Mawrth 2018
- Gweithio gyda Cadwch Cymru'n Daclus

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Cadw Cymru'n Daclus i weld â fyddent yn fodlon danfon cynrychiolydd i drafod sut y gall y cyngor cymuned gynorthwyo i leihau problem sbwriel yn y gymuned.

**8. MATERION ERAILL**

**8.1 Bandeang Cymnedol Gwynedd Ddigidol**

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig gosod cyswllt wi-fi am ddim i ganolfannau cymunedol sydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd Cyngor Gwynedd yn talu cost gosod yr offer a chost band eang a'r llinell ffôn am y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag byddyn rhaid i'r gymuned dalu cost band eang a llinell ffôn am o leiaf pedair blynedd wedyn.

Gan nad yw Canolfan Bontnewydd ar agor ond am oriau gweddol gyfngedig, penderfynwyd na fyddai'n syhwyrol gwneud cais.

Gan fod Age Cymru Gwynedd a Môn ar agor i'r cyhoedd y rhan fwyaf o'r wythnos, penderfynwyd danfon y manylion atynt hwythau rhag ofn fod ganddynt ddiddordeb gwneud cais.

## **8.2 Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Ysgrifennodd y Clerc at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddiweddariad ar y ffordd osgoi.

Cafwyd ateb yn dweud bod sylwadau a wnaethpwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hystyried a bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y gwanwyn.

### **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

3 Mai 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

